# Arddangosfeydd Anifeiliaid

## Ymgynghoriad ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Beth yw Arddangosfeydd Anifeiliaid?

Mae nifer o Arddangosfeydd Anifeiliaid yng Nghymru o sawl maint a math.

Gallai fod yn arddangosfa anifeiliaid egsotig sy'n teithio i'ch ysgol, anifeiliaid mewn sŵ anwesu, neu arddangosfa heboga yn eich ffair leol.

Rydym yn teimlo y gall rhain fod yn hwyl ac yn ffordd wych o ddysgu am anifeiliaid gwahanol na fyddech yn eu gweld bob dydd.

**Mae'r ffordd y mae pobl yn gofalu am anifeiliaid yng Nghymru yn bwysig iawn ac mae Llywodraeth Cymru am wneud yn siŵr bod iechyd a lles eu hanifeiliaid cystal ag y gall fod.**

## Pump o Anghenion Lles

Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn dweud bod yn rhaid i anifail gael:

- Lle addas i fyw;
- Y bwyd cywir;
- Digon o ymarfer;
- Cysylltiad addas gyda phobl ac anifeiliaid eraill; a
- Iechyd a gofal cywir.


# Beth yw'r sefyllfa yn y DU ar hyn o bryd o ran Arddangosfeydd Anifeiliaid?

Ar hyn o bryd nid oes yn rhaid archwilio Arddangosfeydd Anifeiliaid yn rheolaidd. Mae'n bosibl cofrestru rhai Arddangosfeydd Anifeiliaid o dan y Ddeddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoliad) 1925, ond nid yw hynny bob amser yn golygu y byddant yn cael eu harchwilio.


Oherwydd hyn, mae'n bosibl nad yw safonau lles nifer o'r anifeiliaid sy'n cael eu harddangos yng Nghymru yn cael eu harchwilio'n rheolaidd.

Er ein bod yn credu mai perchennog yr anifail sy'n gyfrifol am edrych ar ôl eu hanifeiliaid, weithiau mae angen edrych ar hyn, i wneud yn siŵr ei fod yn cael ei wneud yn iawn ac i safon uchel.

Rydym yn credu bod angen newid i wneud yn siŵr bod anifeiliaid mewn arddangosfeydd yn cael eu harchwilio yn rheolaidd. Fel hyn, byddwn yn gwybod eu bod yn iach, yn cael gofal a bod eu hanghenion lles yn cael eu bodloni.



# Beth ydyn ni'n bwriadu ei newid



I wneud yn siŵr bod anghenion lles anifeiliaid yn cael eu bodloni, rydym am wneud rhai newidiadau a dod â chyfraith newydd i Gymru:

**Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020**

Bydd y gyfraith hon yng Nghymru yn galw ar arddangoswyr i:

- Gael trwydded gan eu Hawdurdod Lleol (efallai eich bod yn ei adnabod fel y Cyngor Lleol). Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i'r arddangoswyr dderbyn hawl arbennig i gynnal eu harddangosfa;
- Gallu bodloni cyfres o reolau newydd i gael eu trwydded gan yr Awdurdod Lleol.

Bydd yr Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am edrych a fydd arddangoswyr yn gallu bodloni'r gyfres o amodau ynghlwm â'r drwydded. Os y byddant, cânt drwydded!

Rydym yn credu y bydd yn helpu i wella'r gofal a gaiff anifeiliaid mewn arddangosfeydd. Rydym yn credu hyn gan y bydd yn rhaid i berchnogion sicrhau safonau lles penodol fydd yn rhaid iddynt eu bodloni er mwyn parhau i arddangos eu hanifeiliaid.

## ? Cwestiwn 1

Ydych chi'n credu bod angen newid?

☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod

Sylw

## ? Cwestiwn 2

Ydych chi'n cytuno y bydd y newidiadau hyn yn gwella lles anifeiliaid sy'n cael eu harddangos?

☐ Ydwyf ☐ Nac ydwyf ☐ Ddim yn gwybod

Sylw

# Am faint fydd y drwydded yn para?



Mae trwyddedau'n aml yn cael eu rhoi am gyfnodau penodol.

Golyga hyn y bydd eu trwydded yn dod i ben ar ôl cyfnod penodol.

Unwaith y daw y drwydded i ben, bydd yn rhaid i'r arddangoswyr wneud cais arall. Yna bydd yr Awdurdod Lleol (y Cyngor) yn cynnal eu harchwiliadau unwaith eto.

Os yw'r anifeiliaid yn derbyn gofal priodol ac yn bodloni'r gyfres o reolau, caiff yr arddangoswyr drwydded newydd a gallant barhau i arddangos eu hanifeiliaid! Rydym yn cynnig cyfnod trwyddedu o dair blynedd.

Rydym yn credu bod hwn yn gyfnod addas gan y bydd modd inni gadw llygaid yn rheolaidd ar les yr anifeiliaid, heb darfu yn ormodol ar fywydau'r perchnogion!

## ? Cwestiwn 3

Ydych chi'n cytuno bod tair blynedd yn amser addas ar gyfer trwydded?

☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod

Sylw

# Beth am addysg?

Rydym yn credu bod addysg yn bwysig iawn i wneud yn siŵr bod gan y genhedlaeth nesaf o berchnogion anifeiliaid (sef chi!) agweddau positif a pharch tuag at anifeiliaid.

Bydd y gyfraith newydd yn golygu, yn ogystal â bodloni'r gyfres newydd o reolau, y bydd gan bobl sy'n cynnal Arddangosfeydd Anifeiliaid gyfrifoldeb i roi gwybodaeth i'w cynulleidfa am y mathau o anifeiliaid sydd dan eu gofal.

## Cwestiwn 4

Ydych chi'n credu bod dysgu pobl am yr anifeiliaid y maent yn eu gweld mewn Arddangosfeydd Anifeiliaid yn syniad da?

☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod

Sylw



# Pwy fydd yn teimlo effaith hyn?

Rydym am i'r gyfraith hon fod yn berthnasol i unrhyw un sy'n cadw neu yn hyfforddi anifail, gyda'r nod o'u harddangos i'r cyhoedd. Efallai eu bod yn gwneud hyn i ddysgu pobl am anifeiliaid neu fel adloniant.

Rydym am i hyn fod yn berthnasol iddynt, p'un a ydynt yn ennill eu bywoliaeth, yn codi arian at elusen neu os nad ydynt yn gwneud arian o'r arddangosfa.

Rydym yn credu ei fod yn bwysig ei fod yn berthnasol i bob arddangosfa sydd heb eu harchwilio eisoes, gan y gall broblemau lles anifeiliaid fodoli o fewn unrhyw un o'r sefyllfaoedd hyn.



## Cwestiwn 5

Ydych chi'n cytuno y dylai'r gyfraith newydd fod yn berthnasol i bob arddangosfa anifeiliaid?

☐ Ydwyf ☐ Nac ydwyf ☐ Ddim yn gwybod

Sylw

## Cwestiwn 6

A oes unrhyw beth arall y dylem feddwl amdano cyn inni wneud y newidiadau hyn?

☐ Oes ☐ Nac oes ☐ Ddim yn gwybod

Sylw

# Diolch am ddarllen hwn!



Cewch anfon eich atebion at:

[WAHFG@gov.wales](mailto:WAHFG@gov.wales)

Y Gangen Lles Anifeiliaid
Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
Llywodraeth Cymru
Caerdydd
CF10 3NQ